

ADOLYGIAD UNIG

Ffynhonnau Uchel, Dewi Stephen Jones, cyhoeddwy – Neb, £6.50.

Dyma gyfrol nodedig na ddylai fod wedi cael ei sgrifennu. Ar ryw olwg fe adeiladwyd holl gyfundrefn gyhoeddi cyfoes Cymru er mwyn atal pethau fel hyn rhag digwydd. Sylweddolir hyn maes o law yng nghyd-destun hanes. Ail gyfrol Dewi Stephen Jones yw, ar ôl *Hen Ddawns*, 1993.

Ni bydd pethau fel hyn yn digwydd bob dydd. Yn y ganrif ddiwethaf, mae yna gyfres o gerddi gan Waldo – 'Cwmwl Haf', 'O Bridd', 'Mewn Dau Gae', a dyrnaid o rai eraill – sydd wedi profi'n dipyn o sialens ddi-hysbydd i ddarllenwyr gofalus ar hyd y blynyddoedd. Mae yna ddwsin o gerddi anghyffredin gan Saunders Lewis. Ni chanfyddaf gerddi eraill o ansawdd cyffelyb cyn y gyfrol hon. Perthyn peth o waith syfrdan Dewi Stephen Jones i'r un garfan honno. Mae'r awgrymusedd yr un mor gyfoethog bob dim â'i ragflaenwyr, a'r iaith mor gyfareddol.

Yng nghornel y byd, Dewi Jones yw bardd mwyaf uchelgeisiol Cymru heddiw. Anodd credu bod neb yn arafach wrth lunio'i gerddi nag ef. Ac mewn gwlad sydd wedi gogwyddo tuag at safon 'poblogrwydd' fel unig linyr mesur, a hefyd tuag at gerddi plant a pherfformio yn ddiymatal (gyda'r canlyniad bod cymaint o'i barddoniaeth yn fwy elfennol ac yn fwy arwynebol bellach na'r un wlad arall y gwyddom amdani), amheuthun yw cael bardd sy'n pwysu a mesur pob gair am wythnosau. Mae barddoniaeth o'r fath fel pe baem yn cael ein tynnu allan o bydew trefedigaethrwydd.

Nid yw pethau fel y gyfrol hon, mewn un ganrif, yn digwydd ar gornel pob stryd. Nid yw pobl yn eu disgwyl. Ond gallaf addo'n hyderus i ddarllenydd gofalus flynyddoedd lawer o gynnwrf yn y trideg chwe thudalen hyn. Cafodd Dewi Stephen Jones oes a oedd yn drwm o anamlygrwydd. Ni fu'r un bardd yng Nghymru yn fwy o'r golwg nag ef. Ef yw Emily Dickinson ein gwlad. Ond yn y cudd hwnnw lluniodd ef ei drysorau dirgel.

Y dull callaf, efallai, o gyflwyno'r gyfrol fyddai drwy glosio at ddwy gerdd yn arbennig.

Yn gyntaf, sylwer ar '*Y Colomennod*'. A chanolbwyntier am ennyd ar un thema'n benodol, sef y berthynas bwysig yn yr oes ôl-fodern hon rhwng gwahanu ac uno. Y cyfuniad hwn wrth gwrs yw hanfod meddwl a hanfod iaith erioed. A gwall pennaf, a chwbl wallgof a diwerth ôl-foderniaeth, mewn metanaratif mor llawn o wallau, fu ceisio ysgaru'r rhain. Dyfynnaf y gerdd yn llawn:

*Anwybyddant benfedd-dod yr allt
a llawr ansefydlog y gwyliwr hwn
wrth iddo droi i geisio dal cwmpas
eu hedfan a chael arc o ddiflaniadau crwn
fel haig o bysg nad ýnt er bod yn y dyfnder glas.
Ddeiliaid penrhyddion coll, trowch yn fy mhenglog hallt.*

*Cylchdrônt o fewn terfynau heb fynd ar hynt.
Neithiwr roedd cylchoedd y dafnau glaw, y geometri gwydr;*

*yn lledu eu cryndod perffaith dros wyneb llyn o ddŵr
nes darfod wrth yr ymyl. Mae'r colomennod yn rhythm a mydr
eu ehediad, yn driw i gysgod lle, mur
o ddim sy'n cadw rhag troi i'r mapiau draw. Adlamant.*

*Yn isel cyrchant deirgwaith, fawr mwy, cyn
tynnu ffigwr wyth, adennill safle a throi
o'u gwrthol gan sefydlu patrwm o droad a gwrthdroad
fel cylch a'i eco draw mewn drych nad yw
ond aer eu hedfan. Pan fônt yn uchel ym mwynder anadl
y prifwynt, ehangach yw eu cylch fel cylchedd y brwyn.*

*Weithiau heb godi 'mhen clywaf nerth adenydd
a dônt i'r golwg yn sydyn lathenni draw
fy ngholomennod a throi ar ongl mor lem
nes sythu o'm blaen i ymddangos fel diflaniad – blewyn
amrant yn pigo'r llygad dall – er bod grym
eu hedfan fel sŵn daeargryn uwch llofft y dydd.*

*Yn agos i'w cut ehedant yn is na'r bargod
gan ddowcio'n llyfn a chodi i grafu'r
to o'u blaen. Mae hyn yn ddefod wrth fynd rownd
a rownd heb i'w hedfan fawr arafu
ac fel reiden yn y ffair rwynt yn bownd
o gael gwrthdrawiad. Ond nid yw waliau'n bod.*

Sylwer fel y mae'r bardd yn ymbalfalu'n gyson ac yn ddyfal am yr undod a deimla sydd yn yr haid o golomennod hyn: *dal cwmpas ... a chael arc ... crwn ... trowch yn fy mhenglog ... cylchdrônt o fewn terfyn heb fynd ... cylchoedd ... y geometri ... crynder perffaith ...* ac yn y blaen.

Yna, sylwer ar y tyndra gwrthwyneb: *penfedd-dod ... ansefydlog ... diflaniadau ... nad ynt ... coll ... lledu ... nes darfod ... adlamant ...* ac yn y blaen.

Ond undod y patrwm sy'n ennill. Mae yna ffurf gymen yn y symudiadau crwn. Ar ryw olwg, yr hyn a geir yw cyfres o ddelweddau neu o bortreadau gwahân sy'n canlyn ei gilydd heb naratif datblygol iawn. Diau mai mewn cefndir cymdeithasol diwydiannol y mae'r rasio colomennod hyn yn digwydd: *'uwch llofft y dydd' ... 'yn agos i'w cut' ...* Megis y bywyd islaw. Ac yn y cyd-destun hwnnw y mae'r gymdeithas ei hun yn profi'r un gwahanu ac uno. Gwir ein bod yn cael ein harwain at ryddid lle *'nid yw waliau'n bod'*. Ond fe geir y naratif hwnnw yn y cysondeb thematig, y *'cyfyng furiau'*.

Trawiadol yw'r gymhariaeth ardderchog rhwng y colomennod wrthi uwchben eu cut yn mynd *'rownd*

*a rownd heb i'w hedfan fawr arafu
ac fel reiden yn y ffair rwynt yn bownd
o gael gwrthdrawiad. Ond nid yw waliau'n bod.*

Mae bywyd i gyd yn y fan hyn. Fel ym mob un o gerddi Dewi Stephen Jones, ceir

dyfnderoedd rhyfeddol. Gerdd ar ôl cerdd, agorir profiad sy'n wefreiddiol i'r sawl sy'n darllen yn araf.

Yr hyn oedd 'lens' yng nghyfrol gyntaf Dewi, hynny yw'r 'map' yn y gyfrol hon. Ceir mapio wrth gwrs yn isymwybod y '*Colomennod*' eu hunain (cf. '*Y Gwyddau Gwyllt*'). Felly i'r mân bryfed sy'n tyrru o gylch ffenest '*Y Goleudy*' yn y gyfrol hon:

*i rwyfau'r mân bryfed
a nofwyr map y nefoedd.*

Felly hefyd yn '*Y Pwll Nofio*', lle y ceir adfeilion pwll nofio taid Dewi, y parhad o dan anwybyddiant y blynyddoedd:

*dy gerddediad ar do
uwch y mapiau dwfn ...
Heb ôl dawn y bildiwr
mae nos am y map erioed.*

Felly eto yn y gerdd am *Y Mynydd: Dinlle Gwrygon*:

*Lens
y gweld clir,
y pelydryn di-gryn
sy'n canslo'r graig,
a map oes
i mi, y cwmpas mawr*

Gellid cyfrol feirniadol gyfan i arddangos arwyddocâd 'lens' a 'map' i bersonoliaeth a phrofiad Dewi.

Fel y gŵyr pawb sy'n darllen llenyddiaeth Gymraeg yn ddwys, y mae Dewi yn perthyn i ddyrnaid o feirdd nad ydynt yn malio ryw lawer os nad ydynt yn hysbys. Nid yw'n perfformio tan fritho'i gyflwyniad â jôcs. Nid yw'n canu ar lwyfan chwaith. Ond y mae'n myfyrio ac yn creu mewn modd sy'n bwysig iawn i genedl a gollodd hunan-barch llenyddol.

A yw'n myfyrio am y cyflwr dynol? Neu o leiaf am ryw arweddau ohono? Mae ei Gymru ef, yn wir ei ymrwymiad cymdeithasol – sy'n beth byw iawn – yn wahanol i'r rhelyw ohonom. Gŵyr gryn dipyn am dawelwch – nwydd amheuthun ym mhob cymdeithas. Gŵyr gryn dipyn am bendroni ynghylch ei ystâd ddibriod. Gŵyr am fath o unigrwydd. Ond yn anad dim, gŵyr gryn lawer am y cyflwr o 'fod yn unigryw' – ac y mae hyn yn gyflwr cyffredin i bobun mewnblyg sy'n tyrchu i mewn i wead ei gorff a'i feddwl ei hun. Yn ei achos ef – beth yw ystyr ei unigrywiaeth? Beth sydd yn y Gwydr Hardd? Drwy'r Ffenestr? Yn y Lens?

Am hyn y bydd yn prydyddu'n fynych – bob amser o fewn cyd-destun diriaethol a gwrthrychol, yn ofalus o'i fydryddiaeth, ac yn byw ei awgrymusedd.

Y mae gan Dewi un dirgelwch mawr. Ac yr wyf yn sôn am hyn gan mai dyma un o'i brif

destunau. Ei ddirgelwch yw 'ef ei hun'. Mewn cerdd ar ôl cerdd, bydd yn ei chwilio. Yr her i ni, mewn adolygiad, yw ceisio ymholi – beth, mewn spesimen dynol mor ecsentrig, sy'n gyffredinol bwysig a gwerthfawr.

Ar ôl colli'i rieni ac eraill – y chwyldro mwyaf yn ei gyfnod diweddar – meithrinodd benderfyniad a chyndynrwydd. Datblygodd yr elfen archolladwy. Meithrinodd ei olwg ar Amser, a'r rheidrwydd i fod yn gadarnhaol.

Ac y mae hyn oll yn 'gargo o win' yn ei 'stafell haearn', a'i 'focs pren', sy'n cynnwys Mapiau a Llwch y Sahara, yr Holocost a Dinlle Gwrygon, a newyn yn y Swdán. I gyd yn gudd.

Yng nghornel y byd, Dewi Stephen Jones yw bardd mwyaf dirgel Cymru heddiw. Amheuthun yw cael bardd sy'n pwyso a mesur pob sill.

Caniatewch i mi eich tywys, heibio i'r Ffynhonnau Uchel yn y Berwyn lle y mae'r bardd yntau'n cael ei dywys gan ei ewythr a'i fodryb, tua'r brig.

*Unwaith ar lethr mynydd
cyhyrog, un o'r cewri,
ar bnawn i roi bloedd
heb wyntoedd ogyrch ei bentwr,
aros yng nghysgod y corun
i yfed o'r persbectifau
brown a gwyrdd
y Berwyn a'i gylch.*

*Oriau'n gynharach
ar ros uchel torrais syched
fel y lleill, gwefl a llaw
yn dal blas y dŵr
o wyneb hen ffynhonnau,
dwy ffynnon
ddison
ond â'u dyfroedd oesol.*

*Pwyllais uwch eu pyllau
croyw, syml
nes i'r criw symud.
Aethom i ben eitha'r
gadwyn, sefyll ac oedi,
nes o ganfod un ddisgynfa
rwydd heibio i'r sgri
ei throi hi am y llethrau is.*

Cymryd saib ...

Aeth hanner canrif heibio.

*Fy nydd, y dydd yw'r gwastadeddau
wrth y ffin (ai rhith yw ffyniant?)
heb droi ymhell ond bodio'r map
yn y galon o bryd i'w gilydd ...
Ac rwy'n cerdded ar i waered yn yr haul*

i lawr y cwm at le'r coed.

Yn iach ffynhonnau uchel.

Pum pennill.

Ceir digon o linellau syml i'r rhai a'i ceisiant. Ni allai fod yn rhwyddach.

*brown a gwyrdd
y Berwyn a'i gylch.*

Gallwn fynd heibio iddynt, ffal-di-ral, a hwylio ymlaen yn hapus ddifeddwl nes cael ein dal yn sydyn grynedig gan yr hyn sy'n digwydd. Yng nghanol symlder y prynhawn, mae yna epiffani:

*'Pwyllais uwch eu pyllau
croyw, syml
nes i'r criw symud.'*

Bu'n uchel gyda'r 'ffynhonnau', nes 'ei throï hi am y llethrau is'. Wedyn, yn sydyn, 'Aeth hanner canrif heibio'. A sylweddolwn fod hyn oll wedi digwydd hanner canrif yn ôl, y tipyn ddigwyddiad hollol ddibwys hwn, ac yn awr wedi'r bwlch, ffrwydrasai'n ôl, yn gyfarfyddiad hudol.

Yn sgil yr ymgais i chwilio'i fywyd, nid syn yw bod ambell gerdd yn archwilio'i brofiad o fod yn fardd: 'poen "yr wyf" a'i ddeupen rhyfedd'.

Ar ryw olwg, mae cerdd gyntaf y gyfrol hon '*Yn y Gwydr Hardd*' yn gwneud yn union hynny. Defnyddia fframwaith y ffenestr ('paenau') – sy'n chwaer i'w lens achlysurol neu i'w ddrych neu sgrîn.

Y tro hwn, cysylltir y thema â datguddiad graddol o farddoniaeth ynghylch marwolaeth: 'yn offeren ddu', 'brain', 'y gwaed ar wyneb y gwellt' (brwydr),

*'nes i chwaer awel
gynnes ac union
(nid tröell ellyll
ond thermal y galon)
eu codi yn eu cadwyn
fry.'*

Mae yr annisgwyl yma, fel sydd ym mhob cerdd. Ceir bod y marw hwn yn codi, codi

*'draw yn y gwydr hardd,
o'r golwg
yn un â'r golau.'*

Ystyrir dimensiwn arall. Urddasolir rhywbeth a allai fod yn gwbl fel arall. Mawrhydir ystyr bywyd.

Ond Dewi sydd yno, fel mewn cynifer o gerddi praff: Yn '*O'r carchar*', meddwl y mae am Iddew dan glo: 'Bu' n annedd

*(fy nghaban)
unwaith.*

*Onid yw'r rhif
ar groen y drws.'*

Adeiladwyd y gerdd ar thema uniaethu a chyd-deimlo: '*Fy llw o'm stafell haearn.*'

Felly:

'Fy llun oedd yn syllu'n ôl'. ('Fy Nymor a'r Tymhorau')

Yn '*Y Goleudy*', crëir darlun go lythrennol yn gyntaf, ond trawsffurfir ef yn symbol o obaith ym mhob tywyllwch neu berygl. Dyma'r ddau bennill olaf: yn ail hanner y gerdd closir a manylir am y mân bryfed a'r gwyfynnod a ddenwyd ato, a gyffelybir i Seiren, a phlu 'llongdrylliad adar.'

*Ond galwad digywilydd
eurlais y Seiren
fu ei ffenest
i rwyfau'r mân bryfed
a nofwyr map y nefoedd.*

*Glŷn
yn y bore, heb y golau'n berwi,
wrth ei feinwe darth o wyfynnod:
coron o lwch (y crin luwchiad)
a phlu llongdrylliad adar.*

Mae'r goleudy ynddo ef. Ond drwy'r rhediad, ymgyfyd llinellau unigol syfrdanol – llinellau sy'n esbonio arafwch a chyfoeth y myfyrdod maith y soniais amdano – llinellau sy'n anrhydeddu'r iaith Gymraeg. Onid gwych ei bod yn gallu gwneud hyn o hyd – er gwaethaf y poblogeiddio a'r ysgafn?

Trueni na chafodd Saunders a Waldo fyw i weld bod hyn yn dal yn bosibl i'n hiaith frenhinol er gwaethaf pob elfenoli.

Gan fod Dewi'n gweithio bob tro ar gerdd dros gyfnod hir o amser, y mae'n anochel y bydd ef fel arfer yn canoli ar un ddelwedd ganolog. Erys gyda hi. Nid symbol unplyg o raid. Ond hedyn mwstard pwerus yw a all gwmpasu diriaethau synhwyrus sy'n gallu helaethu ar symbol. Felly y tyf y gwrthrych yn fyd – *Ffynhonnau uchel, Colomennod, Goleudy, Y Bocs Pren, Gwyddau Gwyllt*. A'r un modd dadlennant y lle diogel lle y mae'n ymguddio yn ei Gymru acw. Ni bydd Dewi'n crwydro. Nid aeth y tu allan i'r Ponciau o'r braidd ers hanner can mlynedd bron. Siwrnai a siawns fu mentro y tu hwnt i ffiniau'i blwyf. Ac eto, gwelodd y cwbl.

Ni roddodd ddyddiad ar y llyfr. Ac yr oedd yn iawn.